# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2022**

**TAG**
**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 6**
**1000N60-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TAG CYMRAEG IAITH GYNTAF – UNED 6**

**HAF 2022 CYNLLUNIAU MARCIO**

## 1. Gwerthfawrogi Rhyddiaith – 40 marc

- Agor gyda **brawddeg fer** yn sôn am addewid i briodi. Y dweud uniongyrchol yn adlewyrchiad o sicrwydd diamod yr addewid. Gwnaed yr addewid ym mis Mai, gyda'r mis hwnnw a thymor y gwanwyn yn symbol o obaith am y dyfodol, a hwythau yng ngwanwyn eu dyddiau (yn wyth oed).
- Mae eu hoedran a'r weithred o gasglu deunydd i greu nyth yn awgrym o ddiniweidrwydd e.e. **berfenwau** 'dwyn' a 'sleifio'.
- Ceir **cyferbyniad** yn y darluniau o'r ddwy fam. Daw'r bachgen o gefndir lle mae mwy o gyfoeth na'r ferch – yr **ansoddair** 'gorau' i ddisgrifio un o'i chotiau'n awgrymu bod ganddi ddewis o gotiau a'r ffaith ei bod wedi ei gwneud o ffwr yn awgrymu cyfoeth. Yr awgrym yw bod y fam o gefndir da ac nad oes cyfle iddi wisgo'i ffwr yn Llwyncelyn – tybed a yw hi'n hapus gyda'r newid ac felly sut bydd ei hagwedd tuag at garwriaeth y ddau o ystyried y cefndiroedd gwahanol? Yn hytrach nag mewn cwpwrdd pren, daw'r ferch o hyd i ddeunydd o fag gwau ei mam a'r unig drysor y gall hi ei ganfod yw gwlân o hen siwmper. Mae'r **berfenwau** 'datod' ac 'ail-wau' a'r **ansoddair** 'hen' yn awgrym o dlodi – ni all y teulu hwn fforddio prynu siwmper newydd heb sôn am gael dewis o fwy nag un gôt. Y **frawddeg fer** 'Doedd dim cot ffwr ganddi hi' yn pwysleisio'r cyferbyniad rhwng y ddwy fam a chefndiroedd y cariadon.
- Y cariadon ddim yn cael eu henwi – stori a neges allai fod yn berthnasol i bawb.
- **Trosir** y bont lle maent yn gosod y ffwr a'r gwlân yn allor gan eu bod yn aberthu er mwyn cynorthwyo'r adar i greu nyth – adlais o'r addewid i briodi ger allor yr eglwys neu awgrym o'r aberth i ddod?
- Yn y disgrifiad o'r adar, ceir **brawddeg fer o un gair** – 'plu' – mae'r gair hwn yn llinyn cyswllt cynnil yn y stori ac yn **symbol** o greu cartref. Mae'r adar yn casglu'r rhoddion fel y bydd y ferch yn casglu rhoddion ar gyfer ei *bottom drawer*.
- Mae hapusrwydd y bachgen o weld bod y cyfan wedi ei gymryd yn dangos ei awydd i helpu a'i ofal dros eraill. Yr **onomatopeia** 'tincial' i ddisgrifio'i chwerthin yn disgrifio'i anwyldeb a hithau'n gwrando arno. Cysyllta ei chwerthin â sŵn adenydd yr adar a daw hwn yn gyswllt pwysig ynghyd â'r gusan gan greu undod i'r stori.
- Wyth mlynedd yn ddiweddarach, mae'r ferch yn casglu at ei *bottom drawer* – mae addewid y ddau wedi ei gadw a'r bwriad i briodi yn parhau. Atgoffir ni o'r tlodi pan glyw mai 'ychydig iawn' oedd gan ei mam i'w roi iddi. Yr **ansoddair** 'hen' am y garthen yn dangos nad yw eu hamodau byw wedi gwella. Serch hynny, mae trosglwyddo'r eitemau hyn yn awgrym o drosglwyddo gwerthoedd gan mai pethau'n ymwneud â chreu nyth/cartref a magu teulu ydyn nhw. Mae'r fam hefyd yn trosglwyddo sgiliau hanfodol i'w merch – y brodweithio i harddu'r lliain bwrdd ail law.
- Mae **symbol** y gwaed ar y lliain gwyn yn rhagflas arswydus o'r hyn sydd i ddod gyda'r cyfuniad hwn o liwiau'n symbol o farwolaeth. Mae'r nodwydd galed wedi tynnu gwaed a dyma'r awgrym cyntaf o darfu ar ddiniweidrwydd a hapusrwydd a geir yn y stori. Mae'r **gyffelybiaeth** 'fel papur blotio' yn hynod effeithiol i ddangos sut mae'r gwaed yn lledu ac yn llygru purdeb y gwyn; mae'r purdeb diniwed dan gysgod marwolaeth.
- Mae'r ferch yn hoff o'r siol fagu 'blaen' gyda'r **ansoddair** a'r ffaith ei bod wedi gwisgo yn ein hatgoffa o'r tlodi drachefn.

© WJEC CBAC Cyf.

- Y ferch yn estyn am y siôl fagu ac yn breuddwydio am fod yn fam gan fynegi ei gobaith at y dyfodol a'i breuddwyd o fagu teulu.
- Mae'r bachgen yn gyrru plu lliwgar o amrywiol wledydd at ei gariad a thynerwch y weithred yn **cyferbynnu** â rhyfel. Mae'n arbed ei theimladau trwy osgoi sôn am y rhyfel a chaiff ei geryddu am fynd i chwilio am y plu fel y cafodd y ddau eu ceryddu gan eu mamau. Cymal cyntaf y paragraff 'Pan ddaeth y rhyfel' yn frawychus o syml ac yn tarfu ar y stori fel y bu i'r rhyfel darfu ar eu bywydau. **Brawddegau byrion** yn cyfleu ei gariad ati. Yr adar â'u cân wedi tyfu'n **symbol** o berthynas y ddau.
- Y peth olaf a wna hi cyn mynd i'r gwely yw gludo'r plu yn ei 'sgrap-bwc glas' sy'n cyfleu mai am ei chariad y bydd yn meddwl wrth noswylio. **Ailadroddir** 'rhai' wrth ddisgrifio lliw y plu ac mae'r frawddeg olaf yn rhoi rhagflas annifyr o'r hyn sydd i ddod yn y **gymhariaeth**: 'Rhai bron yn ddu fel hen waed'. Dyma'r ail dro mae'r syniad o waed yn tarfu ar rywbeth hardd, fel rhyfel yn tarfu ar eu cariad.
- Mae hi'n cofio'r cariad yn dweud wrthi am chwant pobl oedd yn fodlon chwalu nythod er mwyn cael gafael ar blu hardd – hyn yn **symbolaidd** o chwant arweinwyr gwleidyddol yn gyrru dynion ifanc i ryfel. Mae'r chwant mor gryf, mae'n troi'n salwch sy'n chwalu 'nythod' yn achos y dwyn plu ond, yn waeth, yn arwain at farwolaeth a chwalu cartrefi a gobeithion yn achos rhyfel. **Ailadroddir** y geiriau 'dim ond' er mwyn pwysleisio nad yw'r budd a geir yn werth yr aberth a delir.
- Cofia'r ferch grio o glywed yr hanes – rhagflas o'r dagrau sydd ar ddod wrth i'w nyth hi gael ei chwalu cyn ei greu. Clyw 'gân yr adar colledig hynny' sy'n dod yn **symbol** o'i chariad wrth i'w gân yntau gael ei difetha gan chwant arweinwyr rhyfelgar. Mae'r **ansoddair negyddol** 'annioddefol' yn cryfhau effaith y chwant ar fywydau diniwed.
- **Brawddeg fer gynnil** yn nodi na ddaeth llythyr oddi wrth ei chariad a hynny'n awgrymu ei fod wedi marw. Mae hithau yn byw mewn gobaith y daw yn ôl i wireddu eu breuddwyd o briodi ond sylweddola fod y gobaith hwnnw'n faich arni ac y byddai'n well gwybod gyda sicrwydd ei fod wedi marw.
- Mae'n gosod ei chasgliad ar gyfer pluo nyth y ddau wedi iddynt briodi yn y *bottom drawer* ac yn ei gau. Mae'n **eironig** ei bod yn eu gosod yn y drôr sydd yn cael ei chysylltu â hel pethau i greu cartref ond na fydd hynny'n digwydd iddi hi. Mae'r **berfenw syml** 'cau' yn weithred derfynol ac yn symbylu cau drws ar ei breuddwydion a cholli gobaith.
- Mae'r ferch wedi dod yn wraig ganol oed, gydag amser wedi 'gwisgo croen ei dwylo', ac mae hi ar ei ffordd i briodas ei nith. Yn **eironig**, mae honno ym mis Mai, sef y mis y cytunodd y ddau blentyn wyth oed y bydden nhw'n priodi ar ddechrau'r stori sy'n creu **undod**.
- Daw ar draws y plu wrth chwilio am ei het ac mae'r **ansoddair** 'ffyrnig' yn annisgwyl ond yn gwbl addas i gyfleu sut mae'r plu, a'u hatgofion cysylltiedig, yn ymosod ar ei synhwyrau. Nid yw'r lliwiau wedi pylu, ac mae'n debyg nad yw ei chariad wedi pylu gan nad yw'r pethau yn y *bottom drawer* wedi eu defnyddio erioed (awgrym na phriododd hi).
- Mae'n anwylo'r siôl ac yn hel atgofion wrth wneud a cheir **cyferbyniad** yn y darlun o'r siôl am yr 'hen ysgwyddau' o'i gymharu â'r darlun ohoni'n ifanc.
- Clyw sŵn yr adar ac mae'r cyswllt rhwng y sŵn hwnnw a'i chariad yn ei harwain i gofio'i lais a'i gusan. Cofia am ei garedigrwydd tuag at yr adar wrth iddynt nythu a chymer y siôl gyda hi i'r briodas – mae hithau'n dilyn ei esiampl ac yn rhoi anrheg i'w nith i greu ei nyth ei hun. Gwelir y syniad o drosglwyddo gwerthoedd a pharhad ac er na wireddwyd ei breuddwyd hi, gall gynorthwyo eraill i fod yn hapus, fel y byddai ei chariad wedi gwneud.

**Synoptig**

Gellir cydio mewn nifer o themâu megis:
Ieuenctid
diniweidrwydd
perthynas
cariad
tlodi a chyfoeth
rhyfel
colled a galar
gobaith ac anobaith
gorffennol a dyfodol
breuddwydion
traddodiadau a gwerthoedd
gwrthdaro / chwant
gofal

| AA2 | AA2 - ystod y marciau (20) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|
| • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at rannau penodol o'r testun a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn dreiddgar<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn ddeallus<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | **16–20**<br>***(Synoptig 5)*** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | **16-20** |
| • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn addas a phwrpasol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn effeithiol<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng amrywiol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a thechnegau arddull | **13–15**<br>***(Synoptig 4)*** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | **13-15** |
| • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at rannau perthnasol o'r testun a defnyddio dyfyniadau addas<br>• dadansoddi arddull a ffurf/mesur yn foddhaol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn gyson<br>• croesgyfeirio'n synhwyrol rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu a rhai technegau arddull | **10–12**<br>***(Synoptig 3)*** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **10-12** |

| AA2 | AA2 - ystod y marciau (20) | AA3 | AA3 - ystod y marciau (20) |
|---|---|---|---|
| • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi ac ymresymu'n lled foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun a defnyddio rhai dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• ychydig o groesgyfeirio rhwng gwahanol destunau wrth ymdrin â gwahanol agweddau ar y thema/themâu ac ambell dechneg arddull | **7–9**<br>***(Synoptig 2)*** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o ran adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **7-9** |
| • cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol<br>• datblygu ac ehangu ar rai syniadau<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at y testun ac ambell ddyfyniad<br>• trafod rhai agweddau ar arddull a ffurf/mesur<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llenyddiaeth<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng gwahanol destunau | **4–6**<br>***(Synoptig 1)*** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac yn effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **4-6** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0–3** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0-3** |

***Wrth ddyfarnu marciau i AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau/tri phwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf. Rhaid i'r marc iaith fod o fewn un band marcio (yn uwch neu'n is) i'r marc cynnwys.**

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**2.** **Y Gymraeg mewn Cyd-destun** **[40]**

| AA3 - ysgrifennu | AA3 - ystod marciau |
|---|---|
| • ysgrifennu'n gryno gan ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol yn feistrolgar<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd hyderus o hanfodion y ffurf<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen | **32-40** |
| • ymdrech dda i ysgrifennu'n gryno gan ddangos gafael sicr ar ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• saernïo'r gwaith yn ofalus gan sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd priodol o hanfodion y ffurf<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen | **26-31** |
| • ymdrechu i ysgrifennu'n gryno gan lwyddo i ddewis a dethol syniadau perthnasol yn eithaf da<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau undod i'r gwaith<br>• defnyddio cywair yn briodol ac addas ar y cyfan i'r pwrpas / cynulleidfa<br>• defnydd priodol ar y cyfan o hanfodion y ffurf<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **20-25** |
| • llwyddo i ddewis a dethol syniadau perthnasol ar y cyfan<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus<br>• rhoi peth sylw i gywair priodol ac addas i bwrpas / cynulleidfa<br>• rhoi peth sylw i hanfodion y ffurf<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **14-19** |
| • ymdrechu i ddewis a dethol syniadau perthnasol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno'r gwaith<br>• dangos ymwybyddiaeth o gywair addas i bwrpas / cynulleidfa<br>• dangos ymwybyddiaeth o hanfodion y ffurf<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **8-13** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **0-7** |



© WJEC CBAC Cyf.